Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Tachwedd

2021

Amser: 09.01 - 09.31

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Lesley Griffiths AS Darren Millar AS Siân Gwenllian AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc)
Eraill yn bresennol	Jane Dodds AS David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r cyfarfod.

2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.30pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.20pm.

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at aildrefnu'r datganiad gan Weinidog yr Economi: Economi Wyrddach a'r datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Gweithredu carbon sero-net a rhaglen ysgolion a cholegau'r 21ain ganrif.

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr ychwanegiadau a ganlyn i agenda dydd Mawrth:

Dydd Mawrth 2 Tachwedd 2021

- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd (15 munud)

- Cyfnod Pleidleisio (15 munud)

Nododd y Llywydd fod datganiad gan y llywodraeth ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) wedi'i drefnu ddydd Mercher. Esboniodd y Trefnydd fod hyn o ganlyniad i hyd agenda dydd Mawrth, ac y byddai'r llywodraeth yn parhau i osgoi trefnu eitemau ar ddydd Mercher oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.

3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 9 Tachwedd 2021 -

- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Cymru ac Affrica (45 munud)
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021 (20 munud)
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 (15 mun)

Dydd Mawrth 16 Tachwedd 2021 -

- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: **Llafaredd a Darllen Plant** ~~**Y Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol**~~ (45 munud)

3.3 Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021 -

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: Craffu ar weithredu (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

4 Deddfwriaeth

4.1 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 a Bil yr Amgylchedd; a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y canlynol:

- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar bob Memorandwm ar y Bil hwn ar 16 Rhagfyr 2021;
- peidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar Fil yr Amgylchedd ar gyfer craffu gan bwyllgorau;
- nodi'r ddadl ar 2 Tachwedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd; a
- nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r penderfyniad a wnaed o ran y dyddiad cau ar gyfer adrodd fel rhan o'r eitem flaenorol.

4.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Nododd y Pwyllgor Busnes y materion ehangach a godwyd mewn perthynas â Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ac i ystyried y rhain ymhellach ar ôl i'r trafodaethau rhwng y Senedd a swyddogion y llywodraeth gael eu cwblhau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd mewn egwyddor y dylid ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol canlynol tra'n aros am gyngor pellach gan swyddogion y Senedd a Llywodraeth Cymru:

- Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir);
- Bil Rheoli Cymorthdaliadau;
- Bil Diogelwch Adeiladau;
- Bil Iechyd a Gofal;
- Bil Etholiadau.

Bydd dyddiadau cau newydd ar gyfer adrodd ar bob Memorandwm yn cael eu cynnig i'w cytuno y tu allan i'r pwyllgor, yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru.

5 Ymgysylltiad Ewropeaidd

5.1 Enwebiadau ar gyfer Cyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Cyngor Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau-Grŵp Cyswllt y DU.

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr enwebiadau a chytunwyd i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf.

6 Busnes y Senedd

6.1 Llythyr gan y Prif Weinidog

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a nododd fod Comisiwn y Senedd yn cymryd camau i gyfyngu ar nifer y staff sy'n gweithio ar ystâd y Senedd mewn ymateb i'r niferoedd uchel presennol o achosion o Covid-19 ledled Cymru. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod cymryd camau tebyg gyda'u grwpiau ac i annog Aelodau nad ydynt yn mynychu'r Cyfarfod Llawn yn bersonol i ymuno â'r cyfarfod oddi ar y safle. Gofynnodd y Llywydd hefyd i Reolwyr Busnes annog Aelodau i ystyried mwy o ddefnydd o orchuddion wyneb yn y Siambr pan nad ydynt yn gwneud cyfraniad.

7 Unrhyw Fater Arall

COP-26

Cododd Darren Millar bryderon am gydbwysedd gwleidyddol y ddirprwyaeth o'r Senedd a aeth i gynhadledd COP-26. Bydd nodyn ar hyn yn cael ei anfon at Reolwyr Busnes.